

I sylw'r Ysgolion Sul

Penderfynwyd dileu y teitl 'gwaith cwrs' eleni a chael pob plentyn – o'r ieuengaf i'r hynaf – a'r oedolion i wneud 'cyfraniad', waeth pa mor fychan yw'r cyfraniad. Gosodwyd y testun "**Myfi Yw**" eleni a chewch ddehongli'r testun mewn unrhyw ddull neu fodd gan feithrin sgiliau cynllunio creadigol, ymchwilio a datblygu syniadau hefo eraill yn yr Ysgol Sul.

Derbynnir y cyfraniadau yng Nghapel Trefnant nos Lun, Ebrill 8fed rhwng 7.00 ac 8.00 o'r gloch. Gofynnir i chi roi enw pob un yn eglur ar y gwaith. (Os ydych am baratoi arddangosfa flodau, cewch fynd â'r trefniant i Gapel Trefnant erbyn 5.30 nos Wener, Mai 10fed ond bydd angen i chi gysylltu ag Anwen Jones, Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Plant ac Ieuenticid ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, er mwyn ei galluogi i gynnwys yr enwau yn yr adroddiad.)

Bydd y Cyfarfod Gwobrwyo yn cael ei gynnal ar nos Wener, Mai 10fed yng Nghapel Trefnant am 6.00. Bydd sgwrs i'r plant a lluniaeth ysgafn i bawb fydd yn bresennol ac adloniant i'r plant i ddilyn gan griw Coleg y Bala.

I ddod

- **NOSON O ADDOLIAD** – cyfle i ymlacio a mwynhau presenoldeb yr Arglwydd yng Ngholeg y Bala nos Wener, Mawrth 8fed am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- **DIWRNOD CYFANSODDI CANEUON CYMRAEG AR GYFER ADDOLIAD CYFOES** dydd Sadwrn, Mawrth 9fed yng Ngholeg y Bala o 10.00 – 4.00. Os ydych chi'n chwarae offeryn, dewch â fo hefo chi. Dewch â chinio – bydd paned ar gael. Cysylltwch ag Andy Hughes (07968 826401/ ahughes@saintygyuned.org) i gofrestru.
- **YSGOL SADWRN DAWN CYMRU** dydd Sadwrn, Mawrth 9fed o 10.00 – 3.30 yng Nghapel y Bedyddwyr, Alfred Place, Aberystwyth, SY23 2BS. Bydd tair darlith, amser o addoliad a gweddi, a chyfle i rannu cymdeithas.
- **RHAGRYBUDD (SARON)** – Ar ddechrau'r oedfa yn Saron am 10.00 dydd Sul, Mawrth 17eg, fe fydd aelodau Capel Saron yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** – nos Fawrth, Mawrth 19eg am 7.00 yng Nghefn Berain. Siaradwr gwadd: Mr Aled Lewis Evans, Wrecsam. Gwneir casgliad.
- **SWPER GŴYL DDEWI CYMDEITHAS CEFN BERAIN** yn cael ei gynnal yn Neuadd Llanefydd nos Wener, Mawrth 22ain am 7.30 a bydd adloniant gan Gôr y Porthmyn. Yr elw tuag at Gapel Cefn Berain ac Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019. Croeso cynnes i bawb. Tocynnau ar gael Falmai Roberts.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Chwefror 17^{eg} a 24^{ain}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon ym Mro Aled. Hyd yn oed os fydd rhywbeth yn ein rhwystro rhag cyd-addoli heddiw, diolchwn nad yw Crist wedi gadael ei disgyblion yn amddifad, ac y gallwn bwysu ar yr addewid: 'nesewch at Dduw, ac fe nesâ ef atoch chwi.' (Iago 4:8)

A glywodd rhai ohonoch y stori newyddion trist yr wythnos hon yn cyfeirio at mor aml yr oedd pobl yn cael eu twyllo gan sgamiau serch (*romance scams*) y dyddiau hyn? Mae'n debyg fod y math hwn o dwyll yn targedu unigolion sy'n chwilio am gymar ar y we, gan ddatblygu ffug gyfeillgarwch â hwy er mwyn yn y pen draw eu perswadio i roi symiau anferth o arian i'r cyfaill newydd (sydd mewn gwirionedd yn lleidr). Mae'r dioddefwyr yn cael eu twyllo gan addewid o gyfeillgarwch a chariad, ond yn y pen draw siom, gwacter a chywilydd y maent yn ei brofi wrth i'w hymddiriedaeth gael eu chwalu'n racs. Ac wrth i ni feddwl am ein bywydau ni a nifer o'r rhybuddion a welwn yn y Beibl, onid ydym ni'n tueddu i ddisgyn am sgamiau serch o fathau gwahanol yn gyson? Nid sôn am bobl yn ein twyllo ydw i, ond am y twyll cyffredin yr ydym yn ei lyncu fod pethau, pobl neu lwyddiant yn gallu ein digoni a rhoi gwir fodlonrwydd i ni trwy'n bywyd.

Dywedodd Iesu wrth wraig ger y ffynnon yn Samaria "Bydd pawb sy'n yfed o'r dŵr hwn yn profi syched eto; ond pwy bynnag sy'n yfed o'r dŵr a roddaf fi iddo, ni bydd arno syched byth." (Ioan 4:13)

Os bydd ein bryd yn bennaf ar arian, enw da, neu hyd yn oed fywyd teuluol dedwydd, byddwn fwy na thebyg yn profi siom a chywilydd o rhyw fath o'u herwydd. Ond nid felly mae hi wrth i ni droi ac ymddiried yn ein Harglwydd Iesu Grist. Mae Ef yn ein gwahodd i ddod ato er y gŵyr yn iawn am ein pechodau a'n gwaeledd, ac roedd yn fodlon wynebu sarhad y Groes er mwyn sicrhau bywyd cyflawn i'w bobl. Nid addewidion gwag o gariad a chwmniaeth gawn ganddo Ef, ond cariad tragwyddol sydd wedi cael ei brofi yn y modd mwyaf costus. 'Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.' (Rhufeiniaid 5:8) Diolchwn am gariad go iawn Duw, a llawenhawn fod Crist yn Achubwr wnaiff byth ein siomi.

Rhodri

Dechrau Canu Dechrau Canmol

Deallwn fod criw ffilmio y rhaglen deledu 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' wedi bod yn recordio rhai o aelodau Capel Llanefydd yn cyflwyno 'Agor y Llyfr' yn yr ysgol yn ddiweddar. Cofiwch wyllo'r rhaglen nos Sul!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 17^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 20^{fed} ➤ **Moli** – Noson anffurfiol i addoli ac astudio yng Nghefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 21^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 22^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 27^{ain} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Gwener – Sul 1^{af} – 3^{ydd} ➤ **Penwythnos Ieuenctid (Bl. 7-11)** yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Gallwch archebu lle trwy fynd i wefan colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg.
- Sul canlynol – 3^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yno am 11.00. Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel Llanefydd yn cael cyfle, trwy bleidlais gudd, i fynegi eu barn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ Bydd y Parch. Nan Wyn Powell Davies yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y Parch. Nan Wyn Powell Davies yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul canlynol – 3^{ydd} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00, a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llanefydd.
- Cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol yng Nghapel Henllan am 2.00 gyda Mrs Enid Davies yn pregethu.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd Mr Gwilym Jeffs yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30, a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00, a bydd Mr Gwilym Jeffs yn arwain oedfa am 11.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- Mawrth – 19^{eg} ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Festri Llansannan o 1.30-3.30. Edrychir ymlaen hefyd i gael cwmni Menna Thomas o Hwb Diwylliant Cyngor Sir Conwy.
- Mercher – 20^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (17eg)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 11.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 10.00.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yn Llanfair am 10.00.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yng Nghefn Meiriadog am 10.30.
- Mawrth – 26^{ain} ➤ Cymdeithas Llansannan – Bwriedir mynd i Noson o Ddramâu yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7.30. Os ydych angen trafniadaeth neu am rannu car, dewch i faes parcio Capel Coffa Henry Rees erbyn 6.45, os gwelwch yn dda.
- Gwener – 1^{af} ➤ Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Festri am 7.00. Enwau i Aneurin (870618) erbyn dydd Mawrth, Chwefror 26ain, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 3^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 11.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 10.00.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
- Sul canlynol – 3^{ydd} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.